Homo heidelbergensis

Rhywogaeth a arferai fyw yn Ewrop, Affrica a gorllewin Asia oedd ***Homo heidelbergensis*** – a elwir weithiau'n *Homo rhodesiensis*. Mae *Homo heidelbergensis* yn rhywogaeth o'r genws *Homo* a oedd yn byw rhwng 600 a 200 mil o flynyddoedd cyn y presennol (CP).

Roedd ei ymennydd oddeutu'r un maint ag ymennydd yr *Homo sapiens* modern. Canfyddwyd y rhywogaeth hon am y tro cyntaf yn Heidelberg yn yr Almaen yn 1907, ac fe'i disgrifiwyd gan Otto Schoetensack; ef hefyd fathodd yr enw.[1][2][3]

Mae Dyn Neanderthal, Denisovan a bodau dynol modern (*H. s. sapiens*) i gyd yn tarddu o *H. heidelbergensis*. Rhwng 300,000 a 400,000 o flynyddoedd CP, gwahanodd grŵp o *H. heidelbergensis* yn grŵp annibynnol o'r gweddill cyn gynted ag y gadawodd Affrica. Trodd rhai i gyfeiriad Ewrop a Gorllewin Asia gan esblygu yn nes ymlaen yn Neandertaliaid. Trodd grŵp arall tua'r dwyrain, i gyfeiriad Asia, gan esblygu ymhen hir a hwyr yn Denisovaid. Esblygodd *H. heidelbergensis* yn *H. sapiens* tua 130,000 CP.[4][5]

Morffoleg

O astudio'r esgyrn, credir fod *H. antecessor* a *H. heidelbergensis* yn tarddu o linach yr *Homo ergaster* o Affrica. Mae'r ffaith fod gan *H. heidelbergensis* ymennydd gyda chyfaint o1100–1400 cm³ (o'i gymharu gyda'r ymennyd modern: 1350 cm³) yn peri i baleoanthropolegion gredu fod ganddo allu i drin offer llaw ac ymddygiad cymdeithasol eitha datblygedig. Oherwydd hyn, rhoddwyd iddo ddosbarthiad tacsonomegol ei hun: rhywogaeth unigryw ei hun.

Roedd taldra gwryw y rhywogaeth *Homo heidelbergensis* oddeutu 1.75 m (5 tr 9 modf) a phwysent 62 kg (136 pwys); taldra cymharol y fenyw oedd 1.57 m (5 tr 2 modf) a 51 kg (112 pwys).[6] Roeddent felly ychydig talach na'r dyn Neanderthal.[7] Yn ôl Lee R. Berger roedd rhai ohonynt cyn daled a 2.13 m (7 tr) - sef yr *Homo heidelbergensis* a drigai yn Ne Affrica rhwng 500,000 a 300,000 CP.[8][9]

Gweler hefyd

- Homo habilis

Homo heidelbergensis

Amrediad amseryddol: 0.6–0.3 Miliwn o fl. CP

Dosbarthiad gwyddonol

Teyrnas:	Animalia
Ffylwm:	Chordata
Dosbarth:	Mammalia
Urdd:	Primates
Teulu:	Hominidae
Is-deulu:	Homininae
Llwyth:	Hominini
Is-lwyth:	Hominina
Genws:	*Homo*
Rhywogaeth:	***H. heidelbergensis***

Enw deuenwol

Homo heidelbergensis

Schoetensack, 1908

Cyfeiriadau

1. "Homo heidelbergensis" (http://www.nhm.ac.uk/nature-online/life/human-origins/early-human-fam

Ail-greu darlun o *Homo heidelbergensis* allan o'r ffosil o benglog a ddarganfyddwyd.

ily/homo-heidelbergensis/index.html). Natural History Museum, Llundain. Cyrchwyd 18 Mawrth 2013.

2. "*Homo heidelbergensis : Evolutionary Tree information*" (http://humanorigins.si.edu/evidence/human-fossils/species/homo-heidelbergensis). Smithsonian National Museum of Natural History. Cyrchwyd 18 Mawrth 2013.
3. Mounier, Aurélien; Marchal, François; Condemi, Silvana (2009). "*Is 'Homo heidelbergensis' a distinct species? New insight on the Mauer mandible*". *Journal of Human Evolution* **56** (3): 219–46. doi:10.1016/j.jhevol.2008.12.006 (https://dx.doi.org/10.1016%2Fj.jhevol.2008.12.006). PMID 19249816 (https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/19249816).
4. "*Homo heidelbergensis - Comparison of Neanderthal and modern human DNA suggests that the two lineages diverged from a common ancestor, most likely Homo heidelbergensis*" (http://humanorigins.si.edu/evidence/human-fossils/species/homo-heidelbergensis). Smithsonian Institution. Cyrchwyd 29 Hydref 2015.
5. "*Denisovans, Neandertals, Archaics as Human Races - Anthropology can now confidently report that Neandertals, Denisovans, and others labelled archaic are in fact an interbreeding part of the modern human lineage. We are the same species.*" (http://www.livinganthropologically.com/anthropology/denisovans-neandertals-human-races/). Living Anthropologically. Cyrchwyd 29 Hydref 2015.
6. "*Evolution of Modern Humans: Homo heidelbergensis*" (http://anthro.palomar.edu/homo2/mod_homo_1.htm). Behavioral Sciences Department, Palomar College. Cyrchwyd December 2012. Check date values in: |accessdate= (help)
7. Carretero, José-Miguel; Rodríguez, Laura; García-González, Rebeca; Arsuaga, Juan-Luis; Gómez-Olivencia, Asier; Lorenzo, Carlos; Bonmatí, Alejandro; Gracia, Ana et al. (2012). "*Stature estimation from complete long bones in the Middle Pleistocene humans from the Sima de los Huesos, Sierra de Atapuerca (Spain)*". *Journal of Human Evolution* **62** (2): 242–55. doi:10.1016/j.jhevol.2011.11.004 (https://dx.doi.org/10.1016%2Fj.jhevol.2011.11.004). PMID 22196156 (https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/22196156). Lay summary (http://www.sciencedaily.com/releases/2012/06/120606075323.htm) – *ScienceDaily* (6 Mehefin 2012).
8. Burger, Lee (Tachwedd 2007). "Our Story: Human Ancestor Fossils" (http://www.thenakedscientists.com/HTML/content/interviews/interview/833/). The Naked Scientists.
9. "*Homo heidelbergensis essay*" (http://www.becominghuman.org/node/homo-heidelbergensis-essay). Institute of Human Origins. Cyrchwyd 29 Hydref 2015.

Wedi dod o "https://cy.wikipedia.org/w/index.php?title=Homo_heidelbergensis&oldid=7781172"

Newidiwyd y dudalen hon ddiwethaf ar 25 Mawrth 2019, am 03:03.

Mae testun y dudalen ar gael dan drwydded Creative Commons Attribution-ShareAlike; gall fod telerau ychwanegol perthnasol. Gweler Telerau Defnyddio'r Drwydded am fanylion pellach.